TAITH AFON

# EICH TAITH AFON

## DEUNYDD CYMORTH

TU FEWN

Mae'r gweithdy hyn yn weithdy rhagarweiniol ar gyfer ein cyfres o weithdai Taith Afon. Maent yma ar gyfer helpu chi fframio ac i roi cyd-destun ar gyfer ein gweithdai i ddod.

### TROSOLWG

O ble mae ein dŵr yn dod? Yn y gweithdy rhagarweiniol hwn, rydym yn mynd i ddarganfod beth mae ein hafonydd yn darparu i ni, a pam maent mor bwysig i'w hamddiffyn.

**Pynciau: Gwyddoniaeth, Daearyddiaeth**
**Amrywiaeth oedran: 7-11 mlwydd**
**Lleoliad: Glan yr afon**
**Amser gofynnol: 30 munud**

### RHESTR OFFER

Cwpanau neu wydrau o ddŵr. Neu, sicrhau bod y dysgwyr gyda photeli dwr gyda nhw.

### PARATOAD

Cyn y gweithdy, rhowch wydr neu gwpaned o ddŵr ar fan gwaith bob disgybl. Neu, rhowch gyfarwyddyd i'r disgyblion i roi ei boteli dwr o'i blaen.

### 1 Sleidiau – Croeso i'ch taith afon!

Mae'r adran hyn yn mynd i dywys chi trwy'r pum gweithdy sydd ar gael drwy Daith Afon yn y drefn rydym yn argymell, er mwyn gadael i chi amlinelli i'ch disgyblion sut mae afonydd yn mynd i fod yn gorfforedig yn y dysgu i ddod.

**Sleid 1:** Eich Taith Afon
**Sleid 2: Gweithdy 1:** Gweithdy Heddiw
**Sleid 3: Gweithdy 2:** Ecosystem afon, beth sy'n byw yn ein hafonydd
**Sleid 4: Gweithdy 3:** Dalgylch afon, beth yw dalgylch afon a sut mae popeth ynddo yn effeithio'r afon.
**Sleid 5: Gweithdy 4:** Iechyd afon, effeithiau negyddol ar ein hafonydd.
**Sleid 6: Gweithdy 5:** Arolygu afon, sut allwn ddefnyddio infertebrat i fesur iechyd ein hafon.

TAITH AFON

## 2 Sleidiau – O ble mae ein dŵr yn dod?

**Gosod yr olygfa:** Mae'r adran hyn wedi ei gynllunio er mwyn annog y disgyblion i ddechrau meddwl am ganlyniad i ble mae ein dŵr yn dod, a sut maent yn cael dŵr yfed glan o'i blaenau.

**Slide 1** - Sleid 1 – O ble mae ein dŵr yn dod?
Sut ydyn yn cael dŵr yfed glan o'n blaenau?
Nid dim ond achos eich bod wedi rhoi e yna… ond o ble mae e'n dod?

**Sleid 2 –** Y gylchred dwr
Ni'n ymwybodol am y gylchred dwr, sut mae'n bwrw glaw ac mae dŵr ar y ddaear ac ar yr arwynebedd yn llifo i mewn i'n hafonydd ac ein moroedd cyn iddo anweddu.

**Sleid 3 & 4 –** Ond sut maent yn cyrraedd ein gwydrau?
Mae cronfeydd dwr wedi ei hadeiladi er mwyn casglu dŵr sy'n llifo yn yr afonydd a dŵr ddaear. Mae gweithdy trin dŵr yn tynnu dŵr oddi wrth y cronfeydd dwr, yn ei glanhau ac yn ei gwneud yn saff i yfed ac yna yn ei bwydo mewn i'n tai.
I ble mae'r dŵr sy'n cael ei harllwys i lawr y sinc yn mynd?
Mae ein carthffosydd o'n sinciau, peiriannau golchi ac ein toiledau yn teithio yn ôl at y gweithdy trin dŵr i'w glanhau ac yna rhyddhau yn ôl mewn i'n hafonydd ac ein moroedd.

**Sleid 5-14 -** Beth arall mae ein hafonydd yn darparu i ni?
**Adloniant:** Mae ein hafonydd yn ein darparu gyda llawer mwy yn ogystal â'n dwr yfed. Maent yn rhoi mannau o fyd natur i ni fwynhau gweithgareddau hamddenol fel cerdded, ciacio a nofio gwyllt. Rydym yn cael buddion iechyd corfforol a meddyliol o dreulio amser mewn neu o amgylch ein hafonydd.
Sut mae treillio amser ger yr afon yn gwneud i chi deimlo?
**Trafnidiaeth:** Rydym yn defnyddio afonydd i gludo llongau cargo mawr yn cario deunydd o'n moroedd at y dociau ein dinasoedd. Yn hanesyddol, defnyddiwyd afonydd hyd yn oed yn fwy ar gyfer trafnidiaeth, fel ar gyfer llwybrau pwysig ar gyfer masnach a theithio.
**Bwyd:** mae ein hafonydd yn cynorthwyo cylchred bywyd eogiaid a brithyll, rhai o brif darddle'r pysgod rydym yn ei bwyta. Mae afonydd hefyd yn chwarae rhan mewn dyfrhau, sef dyfrio ein cnydau amaethyddol.

**Pŵer trydan dwr:** Gall llif yr afon cael ei droi mewn i ynni trwy olwynion dwr a chronlynnoedd yn helpu cynhyrchu trydan i'n cartrefi.
**Rheoli llifogydd:** Mae afonydd yn gweithredu fel systemau carthffosiaeth naturiol, wrth gario dŵr yn ystod cyfnodau o law trwm. Mae carthffos naturiol yn atal llifogydd trwy gludo dŵr gorlawn i ffwrdd uchderau uwch.

## 2 Sleidiau – Beth mae afonydd yn neud i ni?

**Sleid 15 –** mae afonydd yn rhoi cymaint i ni, mae bywyd dynol yn dibynnu ac yn cylchdroi o'i amgylch.

Beth fydden ddigwydd i'n dwr yfed pe tai'r holl afonydd yn sychu?
Efallai bod y dysgwyr wedi clywed am waharddiad peipen ddŵr. Ond, pan fyddwn yn isel am dwr afon yn ystod sychder, rydym yn cael ein cyfyngu ar ein defnydd o ddŵr yn ein cartrefi.

I ble fyddai'r holl ddŵr glaw yn mynd pe bai doedd gennym ddim systemau carthffosydd naturiol?
Heb afonydd yn dargyfeirio ac yn tynnu'r dŵr glaw i ffwrdd, byddai gennym lawer mwy o dir gwlyb, a llai o leoedd i adeiladu. Neu, byddai ein cartrefi a'n strydoedd yn cael ei gorlifo yn fwy aml.

**Sleid 15 –** Felly, mae yn bwysig ein bod yn gwneud ein gorau glas er mwyn amddiffyn ein hafonydd. Yn ystod y gweithdai sydd i ddod, fe ddysgwch sut i wneud hynna!

## 3 Conclusion

Yr allweddi dysgu o'r gweithdy hwn
- Bydd dysgwyr yn deall o ble mae ein dŵr yn dod ✓
- Mae dysgwyr yn deall pa fanteision mae afonydd yn eu darparu i bobl ✓
- Mae dysgwyr yn deall y materion sy'n codi pan nad yw afonydd yn iach ✓

**Diolch yn fawr am gwblhau'r gweithdy rhagarweiniol. Y gweithdy nesaf yn y gyfres yr 'Ecosystem afon'.**